**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Iau, 1 Chwefror 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Wyn Evans, Gwyn Wigley Evans, Marc Davies, Rhodri Evans, Elaine Evans, Caryl Roberts, Ceris Jones, Endaf Edwards a Chris James.

**HEFYD YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth.
Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael.
Y Cynghorwyr Keith Henson, Alun Williams, Clive Davies, Catrin M.S. Davies. (Aelodau o'r Cabinet).
Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Gareth Lloyd, Hugh Hughes, Maldwyn Lewis.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Swyddog Monitro; Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Amgylcheddol; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; a Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00 am - 12.45 pm)

**30 Ymddiheuriadau**
Dim

**31 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**
Gwnaeth y Cynghorydd Endaf Edwards ddatgan buddiant personol parthed y drafodaeth ar gyflogau'r Staff.

**32 Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25**
Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Keith Evans, fraslun o weithdrefn y cyfarfod a chroesawodd i'r cyfarfod Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, y Cynghorydd Gareth Davies - Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael, Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau eraill o'r Cabinet, Aelodau nad oeddent ar y Pwyllgor, a Swyddogion.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, gyflwyno’r adroddiad ar gyllideb ddrafft 2024/2025. Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa ariannol hon sy'n wynebu'r Cyngor yn eithriadol o anodd gyda phwysau ariannol sylweddol. Dywedodd nad yw erioed wedi gweld sefyllfa ariannol mor heriol yn ystod ei gyfnod yn Gynghorydd gan mai dim ond cynnydd o 2.6% a gafodd Ceredigion yn setliad drafft Llywodraeth Cymru 24/25.
Dywedodd wrth Aelodau'r Pwyllgor ei fod wedi cyfarfod â rhai Cynghorau Tref a Chymuned i drafod y sefyllfa ariannol a bod mwy o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos oedd i ddod.

Roedd yr Aelod o’r Cabinet dros Gyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, wedi cyflwyno’r wybodaeth sy'n weddill yn yr adroddiad. Adleisiodd y Cynghorydd Gareth Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf, o bell ffordd, y mae wedi ei hwynebu fel Cynghorydd ar adeg pennu'r gyllideb.

Rhoddwyd gwybod mai dyma’r meysydd y gallai'r pwyllgor hwn fod am eu hystyried o blith Atodiad A ym mhapurau’r agenda:

a) Adran 3 – Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceredigion yn 24/25.
b) Adran 4 – Ystyriaethau lefel uchel o ran y Gyllideb gan gynnwys:
• Adran 4b) – Y Gyllideb Refeniw - Cyfanswm y Pwysau o ran Costau
• Adran 4d) – Y Gyllideb Refeniw – Cynigion o ran Gwneud Arbedion
• Adran 4f) – Cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor
• Adran 4g) – Y sefyllfa bosibl o ran Treth y Cyngor
c) Adran 5 – Y gofyniad o ran y Gyllideb Ddrafft
d) Adran 6 – Risgiau i’r Gyllideb
e) Adran 7 – Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn arfaethedig
f) Adran 8 – Cydnerthedd ariannol (gan gynnwys Cronfeydd wrth gefn a Balansau Cyffredinol)
g) Adran 9 – Rhagolygon Ariannol y Tymor Canolig
h) Yr 11 o argymhellion a gytunwyd gan y Cabinet ar 23/01/24.
i) Unrhyw faterion eraill ynghylch y Gyllideb y mae’r Pwyllgor yn eu hystyried sy’n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn agored mai ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 24/25 yw'r “un fwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli”. Cynnydd ariannol o 2.6% yn unig y mae Ceredigion wedi’i dderbyn (y 14eg o’r 22ain Awdurdod Lleol). Ceredigion hefyd sydd wedi derbyn y cynnydd isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru gyfan. Dyma felly yw Cyllideb fwyaf cyfyng Cyngor Sir Ceredigion ac mae’n waeth nag a ragwelwyd yn flaenorol, ac yn llai na’r 3.1% o gynnydd y cyfeiriodd Llywodraeth Cymru ato yn yr hydref.

Y pennawd o Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol yn Lloegr oedd bod cynnydd cyffredinol o 6.5% mewn cyllid gyda £1 biliwn o gyllid grant ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol o'i gymharu â 23/24. Gan fod Llywodraeth Cymru yn weinyddiaeth ddatganoledig, mae ganddi’r rhyddid i ddefnyddio ei harian fel y mynn. O ganlyniad mae nifer o benderfyniadau polisi gwahanol yn bodoli yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

Mae canlyniad Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol, ynghyd ag amryw o grantiau unigol penodol yn cael eu torri, yn ogystal â phwysau costau sylweddol iawn ar wasanaethau, nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o leihau, yn golygu nad yw hi bellach yn bosibl parhau i ddiogelu Gwasanaethau. Bellach mae penderfyniadau anodd iawn i'w gwneud o ran y gyllideb fel rhan o'r pwyso a mesur ynghylch sut a lle i leihau costau gwasanaethau'r Cyngor, ochr yn ochr ag ystyried y lefel briodol o gyllid i'w godi drwy'r Dreth Gyngor.

Dyma'r pwyntiau allweddol yn yr adroddiad hwn:

- Amcangyfrifir bod y pwysau o ran y costau refeniw diweddaraf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn £18.1m, sy'n ddigynsail ac yn cyfateb i ffactor chwyddiant penodol o 10.1% ar gyfer Ceredigion. Mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa lle y mae chwyddiant yn gyffredinol yn rhedeg ar 3.9% (ffigwr y CPI, Tachwedd 2023). Felly mae angen gwneud yn iawn am ddiffyg o £14.6m yn y gyllideb drwy gyfuniad o Ostyngiadau yn y Gyllideb a chodi'r Dreth Gyngor.
- Mae gofynion cystadleuol ar y Rhaglen Gyfalaf yn gwaethygu oherwydd gostyngiad yn y cyllid cyfalaf Craidd gan Lywodraeth Cymru. Mae lefel bresennol y cyllid cyfalaf craidd (£5.8m) yn dal yn is na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl ac mae'n cynrychioli toriad mewn termau real o £5.1m (neu bron i 50%) dros y cyfnod hwnnw.
- Bydd y gost o barhau i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau bod y Cyflog Byw Gwirioneddol (cynnydd o 10.1%) yn cael ei dalu i staff Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn costio £0.9m ychwanegol i Geredigion ar gyfer 24/25. Dyma'r gost ychwanegol y tu hwnt i ariannu cynnydd sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac mae'n rhan o gyfanswm pwysau costau amcangyfrifedig o £2.7m i ariannu chwyddiant sylfaenol ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol a gomisiynwyd yn allanol (e.e. Gofal Cartref, Taliadau Uniongyrchol a lleoliadau preswyl i Bobl Hŷn).
- Mae'r galwadau a'r pwysau ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynyddu - cyfanswm o tua £6.2m ar ben dyfarniadau cyflog gweithwyr a darpariaethau o ran chwyddiant sylfaenol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol.
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (cynnydd o 9.7%) ond mae hefyd yn parhau i beidio â darparu unrhyw gyllid ar gyfer hyn. Felly mae disgwyl i ddyfarniadau cyflog gweithwyr ar gyfer 24/25, nad ydynt yn cael eu pennu gan Gyngor Sir Ceredigion, barhau i gynyddu. Gyda phwysau costau amcangyfrifedig o tua £4.8m, mae hwn yn newidyn sylweddol iawn o ran y gyllideb. Mae'r dull tuag at Gyflog i'r gwrthwyneb i'r hyn a brofwyd yn ystod y cyfnod cyni blaenorol, pan mai dull George Osbourne oedd gorfodi cyflogau, am sawl blwyddyn, i gael eu rhewi / gosod capiau cyflog o 1% arnynt, fel modd o reoli costau.

- Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae cynnydd sylweddol wedi'i gynnig gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer yr ardoll Tân sy'n rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion. Byddai'r cynnig presennol yn arwain at gynnydd o 12% yng nghost ardoll tân presennol y Cyngor o £4.9m a byddai'n cyfateb i dros 1% ar Dreth y Cyngor.
- Mae effaith gudd ar y Gyllideb yn sgil gostyngiad yng nghyllid grantiau penodol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft - mae’r toriad arfaethedig o dros 20% yng nghyllid y Gweithlu Gofal Cymdeithasol (colled ddangosol o £250k) yn peri dryswch ar adeg pan fo her sylweddol o ran recriwtio a chadw staff yn y sector Gofal Cymdeithasol.
- Er gwaethaf y setliad is na'r disgwyl, mae'r Cabinet yn dal i gynnig cynyddu Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion gan 3.1%, sef y senario a gyflwynwyd i Benaethiaid a Llywodraethwyr ddiwedd mis Medi diwethaf.
- Mae'r Gofyniad drafft cyfredol ar y Gyllideb ar gyfer 24/25 yn gynnydd is (6.9%) na'r cynnydd yn y Gofyniad ar Gyllideb 23/24 (8.6%). Serch hynny, cynnydd o 2.6% yn unig a geir yn setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25, o gymharu â 8.1% yn 23/24.
- Lefel y Dreth Gyngor Band D bresennol yng Ngheredigion (i bob cydran) ar gyfer 23/24 yw £1,908, sydd ychydig yn uwch na’r Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £1,879. Mae lefelau cyfartalog Treth Gyngor yng Nghymru dal yn is na’r cyfartaledd cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Unedol yn Lloegr (£2,139 ar gyfer 23/24). Mae elfen bresennol y Cyngor Sir o Dreth Gyngor Band D 23/24 yn werth £1,553.60.
- Cytunodd y Cyngor yn ddiweddar i gynyddu’r premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag hirdymor, yn weithredol o fis Ebrill 2024. Mae gan y penderfyniad hwn y potensial i gynorthwyo gyda Her y Gyllideb drwy osgoi cynnydd uwch eto yn Nhreth y Cyngor, os bydd yr Aelodau o’r un farn.
- Mae'r Cabinet yn ymwybodol bod tua 85% o'r holl anheddau trethadwy yng Ngheredigion yn perthyn i Fandiau A i E. Mae ffigurau cyfredol Cyllideb ddrafft 24/25 yn nodi cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o ychydig yn fwy na £4 yr wythnos (neu £18 y mis) ar gyfer eiddo Band D.
- Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i weld ymhle/ os gellir gwneud gostyngiadau pellach yn y gyllideb i wella'r sefyllfa ymhellach.

Mae'r broses Graffu ar y Gyllideb a chyfranogiad yr holl Aelodau yn rhan o'r broses hon. Mae'n amlwg iawn o'r uchod nad yw cynnydd o 2.6% yng nghyllid craidd Llywodraeth Cymru, ynghyd â thoriadau mewn cyllid grant penodol gan Lywodraeth Cymru, yn darparu agos ddigon o gyllid i allu delio â rhannau sylweddol o gyllideb y Cyngor sy’n amodol ar chwyddiant ymhell uwchlaw lefelau CPI, ac mewn sawl maes yn cyrraedd lefelau digid dwbl. Golyga hyn fod her anferthol o ran y gyllideb ac na ellir canolbwyntio yn unig bellach ar wneud pethau'n wahanol ac mewn ffordd arloesol. Mae angen i'r

Cyngor wneud arbedion sylweddol yn y Gyllideb a fydd yn gorfod cynnwys lleihau ac, mewn rhai achosion, dileu gwasanaethau'n llwyr.

Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o gael ei chyfyngu i'r flwyddyn ariannol nesaf yn unig, oherwydd mae'r rhagolygon o ran cyllid cyhoeddus yn y tymor canolig bellach yn edrych hyd yn oed yn fwy llwm, er y ffaith bod Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig i'w gynnal erbyn diwedd Ionawr 2025. Wrth symud ymlaen, mae angen i Gyngor Sir Ceredigion ail-werthuso ei bwrpas a'i berthynas sylfaenol â'i drigolion i gynnwys dull gweithredu sylfaenol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau statudol craidd, wedi'u seilio ar lefelau priodol o ymyrraeth. Oni bai bod cyfnod newydd o rewi cyflogau a'r pwysau lleiaf posibl o ran costau Gofal Cymdeithasol, ac yn absenoldeb ail-werthuso ei bwrpas a'i ddull gweithredu, mae Cyngor Sir Ceredigion yn debygol iawn o fod yn anghynaladwy yn ariannol yn y tymor canolig.

Gofynnwyd i'r Aelodau godi pryderon am wasanaethau penodol yn y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

Wedyn rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, ddiweddariad ar lafar ynghylch sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb, fel a ganlyn:

- Yn sgil y £600m a gyhoeddwyd ar 24/01/24 ar gyfer Awdurdodau Lleol Lloegr, deellir y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid canlyniadol drwy fformiwla Barnett o oddeutu £25m. Gallai hyn fod yn werth tua £600k i Geredigion - i'w gadarnhau. Yn ogystal, mae'r gwaith newydd ddod i ben ar y broses gaffael ar gyfer contract gwastraff gweddilliol newydd y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar 20/02/24 gan broffwydo, am y tro, y daw mantais ariannol o £300k. Mae'r cyfuniad o'r ddau ffactor, os cân nhw eu cadarnhau, yn werth tua 2% yn nhermau Treth y Cyngor.
- Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Pwyllgor fod Arweinydd y Cyngor wedi anfon llythyr i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys 12 pwynt lobïo. Mae'r llythyr hwn bellach wedi'i rannu ymhlith holl Aelodau'r Cyngor.
- Pwysleisiodd DH faint yr her ariannol tymor canolig os caiff cyllid y sector cyhoeddus ei gyfyngu i ddim mwy na chynnydd blynyddol o 1%, neu waeth o bosib, o 25/26 ymlaen.

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol yn ystyried, ar 08/02/24 a 09/02/24, yr effaith ar y Gwasanaethau sydd yn eu cylchoedd gwaith nhw.

Wedyn rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a atebwyd yn eu tro gan yr Arweinydd, yr Aelod o'r Cabinet neu'r Swyddog perthnasol. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad yw'n anghyfreithlon defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol, ond ei fod yn cael ei gydnabod yn arfer gwael os nad archwiliwyd ac ystyriwyd llwybrau eraill yn y lle cyntaf. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet a'r Swyddog Adran 151 eglurhad ar y polisi presennol ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac atgoffodd yr Aelodau mai dim ond unwaith y gallwch ddefnyddio arian wrth gefn.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod modd cyflawni cyllideb gytbwys a chadarn.
- Dywedodd Aelod y bydd angen ymgynghori ar lawer o gynigion. O ystyried yr amserlen ar gyfer y gyllideb hon, gofynnodd pa mor hyderus oedd y Swyddog Adran 151 y bydd y rhain yn cael eu cyflawni? Mewn ymateb, dywedwyd na fydd modd cyflawni pob arbediad cyllideb yn 100%, ond bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r tebygolrwydd o gyflawni a'r cwantwm fydd ynghlwm. Dywedwyd y bydd angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol sy'n gyfrifol am yr arbedion arfaethedig gael mandad gwleidyddol cyn gynted â phosib oherwydd ni all yr Awdurdod fforddio aros.
- Mynegodd Aelod siom nad oedd yr opsiynau arfaethedig wedi cael eu hystyried yn gynharach. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod 4 Gweithdy Cyllideb wedi'u cynnal ar gyfer yr Aelodau ers mis Medi 2023 a bod ymgysylltu parhaus wedi digwydd gyda'r Cynghorwyr, yn fwy felly nag ym mhrosesau cyllidebol y blynyddoedd diwethaf.
- Cadarnhawyd y byddai gan bob Swyddog Arweiniol Corfforaethol ragor o wybodaeth i'r Aelodau am y cynigion o ran arbedion, a hynny yn y Pwyllgorau Craffu unigol.
- Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor ei fod wedi cyhoeddi llythyr ysgrifenedig at drigolion Ceredigion sy'n rhoi gwybod am y sefyllfa ariannol bresennol.
- Rhoddwyd gwybod, os na chaiff y Dreth Gyngor arfaethedig ei chymeradwyo, y bydd angen edrych yn fanylach ar Wasanaethau unigol ac efallai y bydd rhai yn cael eu cwtogi/dileu.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch praesept Cynghorau Tref a Chymuned, dywedwyd bod llawer wedi pennu eu praesept eisoes a bod y cyfarfodydd yn rhy hwyr o bosib. Cadarnhawyd bod rhai yn ailystyried eu praesept yn dilyn y cyfarfodydd a gynhaliwyd a bod ganddynt bythefnos o hyd i gyflwyno, tan ddiwedd dydd ar 14/02/24.
- Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi herio ffigurau diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol parthed y boblogaeth, gan fod ffigurau diweddaraf y Cyfrifiad yn dangos bod poblogaeth Ceredigion yn uwch, ac os felly dylai setliad y gyllideb adlewyrchu'r data cywir.
- Amlygwyd bod cost cludiant o'r cartref i'r ysgol yn bryder.
- Mewn ymateb i gwestiwn yn cwestiynu'r ffigwr am chwyddiant cyflog a bod yn rhan o drafodaethau'r cyflog cenedlaethol, rhoddwyd esboniad manwl am y sefyllfa gyfreithiol, gan

gynnwys cyngor y Prif Weithredwr, parthed tâl Athrawon a thâl i'r staff cyffredinol.

- Cafwyd trafodaeth hirfaith ynghylch cynnig y Cabinet parthed Premiwm Treth y Cyngor a oedd i'w weld ar dudalennau 15 ac 16 o becyn yr agenda. Cododd llawer o Aelodau bryderon cryf ynghylch newid posib yn y polisi a gwnaethant ofyn am esboniad cyn cytuno. Esboniwyd yr egwyddor o gapio'r gronfa Tai Cymunedol ar uchafswm o £2.0m a rhyddhau 75% o'r cyllid i gefnogi'r gyllideb gyffredinol (gwerth tua 3.5% yn nhermau Treth y Cyngor).
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod llythyrau wedi'u hanfon at bob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yng Ngheredigion gan roi'r dewis i Benaethiaid a Llywodraethwyr wahodd staff (os bydd Ysgol yn ystyried hynny'n briodol) i gyflwyno datganiad o ddiddordeb, mewn egwyddor, i ystyried yr opsiwn o ddiswyddo gwirfoddol.

Ar ôl trafod, **CYTUNODD** yr Aelodau i nodi'r argymhellion canlynol:

**ARGYMHELLION:**
**1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad am y gyllideb yn Atodiad A.**
**2. Nodi y bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol yn ystyried, ar 08/02/24 a 09/02/24, yr effaith ar y gwasanaethau sydd yn eu cylchoedd gwaith nhw.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o baratoi cyllideb gytbwys a sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol.

Yn ogystal, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am y wybodaeth ganlynol:

1. Gwybodaeth yn ymwneud ag arbedion posib, er enghraifft pe bai perchnogaeth y Gwasanaethau Hamdden yn cael ei throsglwyddo i Ymddiriedolaethau yn y dyfodol (y tu hwnt i Broses Gyllidebol 24/25).
2. Esboniad llawnach ynghylch yr argymhelliad sy'n ymwneud â defnyddio'r premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi a'r effaith ar y polisi presennol.
3. Rhagor o wybodaeth am y gymhareb staff-preswylwyr o'i chymharu ag Awdurdodau Lleol eraill.

Diolchodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i'r Swyddogion am eu gwaith caled wrth baratoi'r papurau ar gyfer yr agenda.

**33 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

**CYTUNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2023 yn gywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion hynny.

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod angen i'r Pwyllgor roi sylw brys iddo**

Ni chodwyd yr un mater arall.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 4 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**